



Prifysgol Abertawe
Swansea University

‘Lerpwl’

gan Grahame Davies



Lerpwl

Pan oeddwn i'n llanc yn Sir Ddinbych
dydd Sadwrn i'w gofio i mi
oedd mynd dros y ffin am y diwrnod
i'r ddinas yn ymyl y lli.

A'i thyllau hi'n wyn ar y gorwel
y hi oedd prif ddinas y byd;
a swanc oedd cael clywed ei hacen
wrth wrando ei sgwrs ar y stryd.

Ond heddiw 'dyw lleisiau y Glannau
ddim mwyach yn arwydd o sbri.
Does dim angen siwrne i Lerpwl
a Lerpwl 'di dod ataf fi.

Adran B

Barddoniaeth

Darllenwch yn ofalus y pennill canlynol o'r gerdd 'Lerpwl' gan Grahame Davies ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn (*Carefully read the following verse from the poem 'Lerpwl' by Grahame Davies and answer the questions which follow*):

A'i thyllau hi'n wyn ar y gorwel
y hi oedd prif ddinas y byd;
a swanc oedd cael clywed ei hacen
wrth wrando ei sgwrs ar y stryd.

(i) Beth ydy prif neges y pennill hwn a sut mae'n berthnasol i weddill y gerdd? (*What is the main message of this verse and how is it relevant to the rest of the poem?*) [25]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen (*Write about one side of a page*).

(ii) Yn y gerdd mae'r bardd yn defnyddio'r technegau canlynol (*In the poem, the poet uses the following techniques*):

- * odl
- * gwrthgyferbyniad
- * goferu

Trafodwch pa mor effeithiol ydy'r technegau uchod yn y gerdd hon.

(*Discuss how effective the above techniques are in this poem.*) [25]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen (*Write about one side of a page*).

(iii) Yn ôl y bardd Grahame Davies, mae Cymru yn colli ei hiaith ac yn colli ei hunaniaeth. Beth ydy'ch barn chi? (*According to the poet Grahame Davies, Wales is losing its language and its identity. What is your opinion?*)

Dylech chi sôn am (*You should refer to the following*):

- Saeson sy'n mewnfudo i Gymru ond ddim yn dysgu Cymraeg (*English people who move into Wales but don't learn the language*).
- Cymry sydd ddim yn poeni am ddyfodol yr iaith Gymraeg (*Welsh people who don't care about the future of the Welsh language*).
- Beth ydyn ni'n gallu wneud i helpu dyfodol yr iaith (*What we can do to help the future of the language*)

[20]



1. Ffeindiwch y lluniau sy'n mynd gyda'r geiriau hyn. Os dydych chi ddim yn siŵr, dyfalwch ☺

Find the images which go with these words. If you're not sure, guess ☺

dydd Sadwrn	lli	cofio	llanc
Sir Ddinbych	dinas	diwrnod	dros y ffin

2. Ydych chi'n cofio'r geiriau?

Pan oeddwn i'n  yn Denbighshire
dydd SATURDAY i'w gofio i mi
oedd mynd dros y ffin am y DAY
i'r  yn ymyl y lli.

3. Meddyliwch am 2 air i ddisgrifio sut roedd Grahame Davies yn teimlo am Lerpwl pan oedd e'n blentyn.

Think of 2 words to describe how Grahame Davies felt about Liverpool when he was a child.

4. Llenwch y bylchau i baratoi paragraff am bennill cyntaf y gerdd 'Lerpwl'.

Fill in the gaps to prepare a paragraph about the first verse of the poem 'Lerpwl'.

Roedd Grahame Davies yn byw yng Nghoedpoeth yn Sir _____ pan oedd e'n 'llanc'. Yn y pennill cyntaf, mae e'n meddwl am un dydd _____ hapus pan aeth e i Lerpwl am y diwrnod. Mae Lerpwl yn wahanol i Sir Ddinbych achos mae Sir Ddinbych yng Nghymru ond mae Lerpwl 'dros y ffin' yn _____.






Hefyd, mae Lerpwl yn _____ ond mae Coedpoeth yn bentref. Ar ben hyn (As well as this), dydy Coedpoeth ddim yn ymyl (*beside*) y môr ond mae Lerpwl 'yn ymyl y _____'.

Felly pan oedd Grahame Davies yn ifanc, roedd e'n teimlo bod Lerpwl yn _____ a _____.

5. Ffeindiwch y lluniau sy'n mynd gyda'r geiriau hyn. Os dydych chi ddim yn siŵr, dyfalwch ☺

Find the images which go with these words. If you're not sure, guess ☺

clywed	stryd	sgwrs
gorwel	byd	tyrau


	
HORIZON	
	

6. Chwiliwch am o leiaf 2 air positif yn yr ail bennill

Look for at least 2 positive words in the second verse

7. Sut mae'r geiriau hyn symbolau?

How are these words symbols?

GAIR	SYMBOL O BETH?
Tyrau 	
Yn wyn	
Gorwel	

8. Llenwch y bylchau i baratoi paragraff am ail bennill y gerdd 'Lerpwl'.

Fill in the gaps to prepare a paragraph about the second verse of the poem 'Lerpwl'.

Yn yr ail bennill, mae Grahame Davies yn disgrifio sut roedd e'n meddwl bod Lerpwl yn anhygoel (*describes how he thought that Liverpool was amazing*) pan oedd e'n blentyn (*when he was a child*). Roedd e'n hoffi'r tyrau uchel (*high towers*) ac mae e'n dweud eu bod nhw'n 'wyn'. Mae tyrau yn symbol o (*The towers are a symbol of*) _____ ac mae'r lliw gwyn (*the colour white*) yn symbol o rywbeth sy'n (*of something which*) _____. Maen nhw'n eiriau positif (*They are positive words*). Mae'r gair 'gorwel' hefyd yn bositif achos mae'n symbol o obaith (*because it's a symbol of hope*). Ar ddiwedd y pennill, mae Grahame Davies yn disgrifio sut roedd e'n hoffi clywed pobl yn siarad ar y _____ yn Lerpwl. Roedd e'n hoffi'r _____ ac mae e'n defnyddio'r gair 'swanc' i bwysleisio hyn (*and he uses the word 'swanc' to emphasise this*). Fel arfer (*usually*), dydy pobl ddim yn meddwl bod acen Lerpwl yn grand (*posh*) ond roedd Grahame Davies yn meddwl bod popeth am Lerpwl yn (*thought that everything about Liverpool was*) _____ achos ei fod yn wahanol i (*because it was different to*) Sir Ddinbych.

9. Edrychwch ar y trydydd pennill. Pa air sy'n arwydd bod y trydydd pennill yn wahanol?

Look at the third verse. Which word shows that the third verse is different?

Ond heddiw 'dyw lleisiau y Glannau
ddim mwyach yn arwydd o sbri.
Does dim angen siwrne i Lerpwl
a Lerpwl 'di dod ataf fi.

But today, the voices of Merseyside
are no longer a sign of fun.
There's no need for a journey to Liverpool
[now that] Liverpool has come to me.

10. Yn eich barn chi, pam mae Grahame Davies yn teimlo'n negyddol yn y pennill olaf?

In your opinion, why does Grahame Davies feel negative in the last verse?

11. Llenwch y bylchau i baratoi paragraff am drydydd pennill y gerdd 'Lerpwl'.

Fill in the gaps to prepare a paragraph about the third verse of the poem 'Lerpwl'.

Ar ddechrau'r pennill olaf (*At the beginning of the last verse*) mae Grahame Davies yn defnyddio'r gair '_____'. Mae pethau wedi newid (*Things have changed*). Pan oedd Grahame Davies yn blentyn (*a child*) roedd Lerpwl yn wahanol i Goedpoeth. Roedd e'n gyffrous (*excited*) am fynd i _____.

Fodd bynnag (*however*), erbyn 'heddiw' (*by today*) dydy Cymru ddim yn wahanol i (*Wales isn't different to*) Lerpwl. Mae Cymru'n mynd fel Lloegr (*Wales is getting [to be] like England*). Mae'r Saeson yn mewnfudo (*The English are moving in*) i Gymru ond dydyn nhw ddim yn _____ Cymraeg. Hefyd, dydy'r Cymry ddim yn poeni digon am ddyfodol yr iaith (*the Welsh people don't care enough about the future of the language*). Mae Cymru yn colli ei hunaniaeth (*Wales is losing its identity*) ac yn colli ei _____.

Technegau

Techneg	Cwestiynau	Atebion
<p>Odl</p>	<p>1. Pa eiriau sy'n odli? <i>Which words rhyme?</i></p> <p>2. Ym mha linellau maen nhw bob tro? <i>In which lines are the rhymes each time?</i></p> <p>3. Beth mae'r odl yn pwysleisio? <i>What does the rhyme emphasise?</i></p>	
<p>Gwrthgyferbyniad</p>	<p>1. Chwiliwch am eiriau positif yn y gerdd. <i>Search for positive words in the poem.</i></p> <p>2. Chwiliwch am unrhyw eiriau negyddol yn y trydydd pennill. <i>Search for any negative words in the third verse.</i></p> <p>3. Beth mae'r gwrthgyferbyniad yn pwysleisio? <i>What does the contrast emphasise?</i></p>	
<p>Goferu (One line spilling into the next, with no full stop within a verse).</p>	<p>1. Sut mae'r atalnodi yn y pennill olaf yn wahanol i'r pennill cyntaf? <i>How is the punctuation in the last verse different to the first verse?</i></p> <p>2. Pam mae'r bardd eisiau gwneud y pennill olaf yn wahanol? <i>Why does the poet want to make the last verse different?</i></p>	

Techneg	Enghreiffiau	Effaith
<p>ODL</p>	<p>Rydyn ni'n gweld odl drwy'r gerdd (<i>We see rhyme throughout the poem</i>).</p> <p>Mae ail linell (<i>The second line</i>) a phedwerydd llinell (<i>and fourth line</i>) pob pennill yn odli (<i>of every verse rhymes</i>). Mae 'mi' a 'lli' yn odli; 'byd' a 'stryd'; 'sbri' a 'fi'.</p> <p>Rydyn ni'n gweld yr un odl ('-i') yn y pennill cyntaf a'r pennill olaf (<i>We see the same rhyme in the first verse and the last verse</i>).</p>	<p>➔ Mae'r odl yn helpu'r rhythm.</p> <p>➔ Mae'n rhoi undod i'r gerdd (<i>gives unity to the poem</i>).</p> <p>➔ Mae hyn yn tynnu sylw at (<i>This draws attention to</i>) y gair 'mi' yn y pennill cyntaf a'r gair 'fi' yn y pennill olaf. Mae hyn yn pwysleisio bod y thema yn bersonol i'r bardd (<i>that the theme is personal to the poet</i>).</p>
<p>GWRTHGYFERYNIAD</p>	<p>Yn y ddau bennill cyntaf, mae llawer o eiriau positif (<i>many positive words</i>). Mae 'dydd Sadwrn' yn symbol o ryddid (<i>freedom</i>) ac mae geiriau fel 'dros y ffin', 'dinas', 'lli', 'tyrau', 'gwyn', 'gorwel' a 'swanc' yn bositif hefyd.</p> <p>Fodd bynnag (<i>However</i>), mae trobwynt (<i>turning point</i>) ar ddechrau'r pennill olaf pan ydyn ni'n darllen y geiriau 'Ond heddiw...' Mae llawer o frawddegau negyddol yn y pennill olaf fel: 'dyw', 'ddim mwyach' a 'does dim'.</p>	<p>➔ Mae'r geiriau positif yn symbol o rywle sy'n gyffrous a gwahanol (<i>are a symbol of somewhere which is exciting and different</i>).</p> <p>➔ Mae hyn yn pwysleisio bod agwedd y bardd at Lerpwl (<i>the poet's attitude towards Liverpool</i>) wedi newid (<i>has changed</i>).</p>
<p>GOFERU (One line spilling into the next, with no full stop within a verse).</p>	<p>Mae llawer o oferu yn y pennill cyntaf. Mae'r pennill cyntaf yn un frawddeg (<i>The first verse is one sentence</i>) a does dim atalnodi (<i>and there's no punctuation</i>).</p> <p>Mae'r ail bennill yn un frawddeg hefyd ond mae hanner colon (<i>semi colon</i>) yn rhannu'r pennill (<i>divides the verse</i>).</p> <p>Yn y pennill olaf, mae dwy frawddeg (<i>two sentences</i>).</p>	<p>➔ Mae'r goferu yn y pennill cyntaf a'r ail bennill yn cyfleu (<i>conveys</i>) bod y bardd yn teimlo'n gyffrous (<i>felt excited</i>) am fynd i Lerpwl pan oedd e'n blentyn (<i>when he was a child</i>).</p> <p>➔ Mae hyn yn pwysleisio bod y bardd yn teimlo'n wahanol yn y pennill olaf. Mae e eisiau gwneud i ni feddwl (<i>He wants to make us think</i>). Mae e eisiau pwysleisio hyn gan ddefnyddio dwy frawddeg.</p>